



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016

Dyddiad cyhoeddi: **14 Tachwedd 2016**
Ymatebion erbyn: **06 Chwefror 2017**

Trosolwg

Mae'r rheoliadau drafft hyn yn ffurfio rhan o ymgynghoriad terfynol ar ddiwygiadau i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016 arfaethedig yn dwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau cyfrifon cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru. Maent hefyd yn cynnig cael gwared ar y gofyniad i gynnwys datganiadau cronfeydd pensiwn yng nghyfrifon y cyrff gweinyddu. Cynigir hefyd newid arall i gael gwared ar y gofynion i gyrrff llywodraeth leol gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd lleol.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 06 Chwefror 2017.

Cewch ymateb i'r ymgynghoriad trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad; neu cewch anfon eich ymatebion naill ai:

drwy E-bost i:

LGFPMail@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy'r Post i'r:

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gais.

Mae'r rheoliadau drafft yn Atodiad A.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Enw (neu'r blwch post cyffredinol):

Cyfeiriad: Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGFPMail@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni yn cael eu defnyddio

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb fel rheol. Mae hyn yn helpu i ddangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn yn eu cuddio wedyn.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau yr ydym yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd wneud cais i gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un wedi gofyn i gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y byddem yn ei chymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cefndir

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”), a wnaed o dan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn darparu’r drefn reoliadol sy’n sail i ymrwymadau adrodd ariannol a chyfrifyddu cyrff llywodraeth leol.

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu’r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2014, a fyddai’n cyflwyno newidiadau i’r amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon cyrff llywodraeth leol. Mae’r newidiadau hefyd yn cynnig newid y gofynion i gyhoeddi datganiadau cronfeydd pensiwn ac arddangos hysbysiadau cyhoeddus sy’n ymwneud â datganiadau o gyfrifon.

Mae Rheoliadau 2014 yn gwahaniaethu rhwng ‘cyrff perthnasol mwy’ a ‘cyrff perthnasol llai’. Bydd y newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y ddogfen hon yn effeithio yn bennaf ar gyrff perthnasol mwy, h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod tân ac achub, awdurdod Parc Cenedlaethol, comisiynydd heddlu a throseddu neu brif gwnstabl (“corff perthnasol mwy”). Fodd bynnag, bydd angen i bwyllgorau cynghorau sir neu fwrdeistref sirol hefyd, gan gynnwys cydbwyllgorau (sydd, cyhyd â’u bod yn bodloni’r amod cymhwyso, wedi eu dosbarthu yn gyrff perthnasol llai yn Rheoliadau 2014¹) gydymffurfio â’r un amserlen gyfrifo ddiwygiedig â chynghorau sir a bwrdeistref sirol.

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn dilyn ymarfer ymgynghori anffurfiol cychwynnol ar y dewisiadau i ddwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon cyrff llywodraeth leol penodol. Mae sylwadau a gafwyd yn rhan o’r broses honno wedi llywio’r cynigion a amlinellir isod.

Pa newidiadau a gynigir?

Amserlen Cyfrifon

Ar hyn o bryd, mae’n ofynnol i swyddog ariannol cyfrifol corff perthnasol mwy ardystio bod y datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun teg a gwir o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae’r datganiad yn berthnasol iddi ddim hwyrach na 30 Mehefin yn y flwyddyn ganlynol. Mae’n rhaid cyhoeddi’r datganiad ddim hwyrach na 30 Medi. Disgwylir y bydd yr archwiliad o gyfrifon y flwyddyn ariannol flaenorol yn dod i ben cyn 30 Medi ac y bydd y datganiadau o gyfrifon a gyhoeddir yn cynnwys barn ac ardystiad yr archwilydd. Cyflawnir y disgwyliad hwn yn y mwyafrif o achosion.

Nodwyd nifer o anfanteision i’r amserlen statudol bresennol:

- Mae cyrff llywodraeth leol yn cyhoeddi eu datganiadau o gyfrifon yn ddiweddarach yn y flwyddyn na rhan fwyaf o feysydd eraill y sector cyhoeddus.

¹ Rheoliad 2(1) o Reoliadau 2014

- Mae cyrff llywodraeth leol hefyd yn gydran sylweddol o Gyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU i gyd², ac ystyrir mai amserlen bresennol y llywodraeth leol yw un o'r rhwystrau i Drysorlys ei Mawrhydi ddwyn ymlaen dyddiad cyhoeddi'r cyfrifon hynny.
- Bydd y rheoliadau cyfatebol³ sy'n berthnasol i gyrff llywodraeth leol Lloegr yn dwyn ymlaen y dyddiadau ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon Awdurdodau Categori 1 (sy'n cyfateb i awdurdodau perthnasol mwy Cymru) ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ym mis Ebrill 2017. Bydd hyn yn arwain at fwy fyth o amrywio rhwng amserlenni cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr.

Ystyriaeth arall yn y cynnig i ddwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodol yw'r effaith y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") gan ei bod eisoes yn ymrwymedig i gyflawni archwiliadau yn ystod misoedd cynnar yr haf i gyrff llywodraeth ganolog a chyrff y GIG. Fodd bynnag, yn ein barn ni, dylai dull graddol a chyfnod digonol o ragrybudd, roi digon o amser i SAC fynd i'r afael â'r pryderon hyn a sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig trwy ei phroses cynllunio busnes.

Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn cynnig dwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau o gyfrifon cyrff perthnasol mwy, er mwyn eu cysoni â meysydd eraill y sector cyhoeddus. Byddai dwyn ymlaen yr amserlen yn atgyfnerthu atebolrwydd awdurdodau a defnyddioldeb cyfrifon i drigolion lleol gan y byddai datganiadau o gyfrifon ar gael yn fwy amserol. Byddai hefyd yn helpu'r cyrff perthnasol mwy o ran eu rheolaeth ariannol eu hunain trwy ddarparu sicrwydd yn gynharach o alldro ariannol y flwyddyn flaenorol. Amlinellir manylion penodol am yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig isod.

Cyfrifon Cronfeydd Pensiwn

Yng Nghymru, mae wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol sy'n cael eu gweinyddu gan wyth cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. Mae'n ofynnol ar hyn o bryd i gyrff perthnasol mwy gynnwys yn eu datganiadau o gyfrifon, ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer pob un gronfa y mae dyletswydd statudol ar y corff i gadw cyfrif ar wahân ar ei chyfer⁴. Mae'n ofynnol felly ar hyn o bryd i adrodd ar gyfrifon cronfeydd pensiwn llywodraeth leol ym mhrif ddatganiadau ariannol (h.y. datganiadau o gyfrifon) y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sy'n eu gweinyddu. Golyga hyn fod cyfrifon cronfeydd pensiwn wedi'u cynnwys ym mhrif gyfrifon rhai cyngorau sir neu fwrdeistref sirol penodol ond heb eu cynnwys yng nghyfrifon rhai cyngorau eraill.

I gefnogi'r broses o symleiddio a chysoni cyfrifon llywodraeth leol, cynigir cael gwared ar y gofyniad i gynnwys yn y datganiad o gyfrifon ddatganiad o'r cronfeydd pensiwn a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn

² Mae Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (WGA) yn cadarnhau cyfrifon archwiliedig dros 6,000 o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus er mwyn llunio darlun cynhwysfawr, ar sail cyfrifon o sefyllfa ariannol sector cyhoeddus y DU.

³ Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015

⁴ Rheoliad 8(1)(c) o Rheoliadau 2014

Llywodraeth Leol 2013. Ni fydd hyn yn newid y gofynion cyfrifyddu ar gyfer cronfeydd pensiwn llywodraeth leol, yn hytrach mae'n ceisio gwella tryloywder cyfrifon y corff gweinyddu gan na fydd cyfrif y gronfa pensiwn wedi ei gynnwys ym mhrif gyfrifon y corff.

Hysbysiadau cyhoeddus

Mae'n ofynnol ar hyn o bryd i gyrff perthnasol mwy gyhoeddi hysbysiad drwy hysbyseb mewn un neu ragor o'r papurau newydd lleol yn ardal y corff dan sylw gan nodi pan fo'r cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu gweld⁵.

Yn y sylwadau a gafwyd i'r ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol, gofynnwyd a yw hwn yn ddull cyfathrebu perthnasol yn y gymdeithas sydd ohoni, lle mae defnyddio'r rhyngwyd yn fwy cyffredin. Mae'r rheoliadau diwygiedig felly yn cynnig cael gwared ar y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol, ond cadw'r ymrwymiad i gyrff perthnasol mwy arddangos hysbysiad ar eu gwefannau. Mae hyn yn efelychu'r gofyniad i gyrff llywodraeth leol yn Lloegr⁶. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn cynnwys darpariaethau ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddangos hysbysiadau o'r fath mewn o leiaf un lle amlwg yn ardaloedd y cyrff perthnasol mwy, gan adlewyrchu'r gofynion presennol ar y cyrff perthnasol llai⁷, ond gan ddiwygio'r geiriad rywfaint at ddibenion eglurder.

Trosolwg o'r diwygiadau penodol i Reoliadau 2014

Mae Rheoliadau drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016 ("Rheoliadau drafft 2016") i'w gweld yn Atodiad A. Isod ceir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig:

- Mae Rheoliad 4 yn eithrio o Reoliad 8 o Reoliadau 2014, yr ymrwymiad ar gorff perthnasol mwy i gynnwys yn ei ddatganiad o gyfrifon ddatganiad cyfrifyddu ar gyfer y cronfeydd pensiwn y mae'n eu gweinyddu yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.
- Mae Rheoliad 5(1)(a) yn dwyn ymlaen y dyddiad terfynol y mae'n rhaid i'r swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio datganiad o gyfrifon corff perthnasol mwy o 30 Mehefin i 31 Mai, yn y flwyddyn gyllid ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi.
- Mae Rheoliad 5(1)(b) yn dwyn ymlaen y dyddiad y mae'n rhaid i gorff perthnasol mwy ystyried, cymeradwyo a chyhoeddi datganiad o gyfrifon archwiliedig o 30 Medi i 31 Gorffennaf yn y flwyddyn gyllid ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi.
- Er mwyn caniatáu digon o amser i gyrff perthnasol mwy a SAC baratoi ar gyfer y newidiadau hyn, cynigir rhoi'r amserlen ddiwygiedig ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 i

⁵ Rheoliad 12(1) o Reoliadau 2014

⁶ Rheoliad 10 (1) o Reoliadau 2015

⁷ Rheoliad 17(1) o Reoliadau 2014

awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid. O ran cynghorau sir neu fwrdeistref sirol, cynigir rhoi'r amserlen ddiwygiedig ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021. Adlewyrchir hyn yn rheoliad 5(2).

- Mae Rheoliad 5(2) hefyd yn amlinellu'r trefniant interim arfaethedig i gynghorau sir a bwrdeistref sirol ar gyfer y blynyddoedd ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020. O ran y blynyddoedd ariannol hyn, byddai angen i ddatganiad o gyfrifon cynghorau sir a bwrdeistref sirol gael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog ariannol cyfrifol erbyn 15 Mehefin, a chyhoeddi datganiad o gyfrifon archwiliedig erbyn 15 Medi. Byddai'r dull interim hwn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i gynghorau sir a bwrdeistref sirol nodi a datrys unrhyw faterion cyn ei roi ar waith yn gyfan gwbl. Mae hefyd yn ceisio lleihau'r baich ar y broses archwilio yn ystod y cyfnod pontio i'r amserlen gynharach.
- Mae Rheoliadau 6 a 7 yn cael gwared ar y gofyniad i gyrrff perthnasol mwy arddangos hysbysiad o hawliau cyhoeddus a hysbysiad o orffen yr archwiliad drwy hysbyseb mewn papurau newydd lleol. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth ychwanegol i arddangos hysbysiadau o'r fath mewn o leiaf un lle amlwg yn ardal y corff perthnasol mwy dan sylw.
- Mae Rheoliad 8 yn berthnasol i gyrrff perthnasol llai ac yn benodol i bwyllgorau cynghorau sir neu fwrdeistref sirol (gan gynnwys cydbwyllgorau). Mae'r rheoliad drafft yn gwneud darpariaeth y byddai ymrwymiad ar bwyllgorau cynghorau sir neu fwrdeistref sirol (gan gynnwys cydbwyllgorau) i weithio i'r un amserlen o ran cyfrifyddu (gan gynnwys yr amserlen interim) â chynghorau sir neu fwrdeistref sirol.
- Mae Rheoliadau 9 a 10 yn gwneud mân ddiwygiadau i Rheoliadau 2014 at ddiben eglurder a chysondeb, trwy sicrhau bod y geiriad a ddefnyddir o ran rheoliad hysbysiadau yr un peth ar gyfer cyrff perthnasol llai a chyrrff perthnasol mwy.
- Yn yr un modd, gwneir Rheoliad 11 i adlewyrchu'r newid i ofynion hysbysiadau cyhoeddus yn Rheoliadau 6 a 7 pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gorchymyn y dylid cynnal archwiliad arbennig.